



Nodion Seion

Haf 2018

Gair gan y Gweinidog

Mae holl hanes cyfnod fy ngweinidogaeth wedi ei gofnodi mewn 127 o rifynnau o Nodion Seion. Hwn fydd y rhifyn olaf i mi ei lunio i'w drosglwyddo i ddwylo Pwyllgor Nodion Seion gyda diolch diffuant iddynt am eu cymorth. Wrth ddarllen yr hen rifynnau cawn ddarlun o eglwys yn ei dillad gwaith yn addoli, yn bugeilio, yn rhannu, yn ymgeleddu ac yn adeiladu cymdeithas yn yr Arglwydd.

Ar hyd y blynyddoedd rwyf fi wedi rhoi'r flaenoriaeth i baratoi ar gyfer y Sul. Mae bugeiliaeth y gweinidog ordeiniedig yn wahanol i fugeiliaeth aelodau eraill y gynulleidfa. Wrth dderbyn yr alwad i ddod yn weinidog yn eglwys Seion derbyniais y cyfrifoldeb arswydus o fugeilio eglwys Seion o'r pulpud.

Bu'n alwad ac yn gyfrifoldeb arnaf i baratoi maeth ysbrydol ar gyfer y gynulleidfa o Sul i Sul, ac nid ar chwarae bach rwy wedi ceisio gwneud hynny. Nid wyf wedi paratoi mewn gwagle. Byddaf yn ymweld ag aelwydydd mewn gwahanol amgylchiadau, mewn profedigaethau, mewn doluriau, mewn salwch ac mewn dathliadau. Bu i mi bob amser geisio arweiniad Duw drwy'r Ysbryd Glân i'm cyfeirio wrth imi baratoi ar gyfer y pulpud i ddwyn ei Air i ni oll mewn modd sy'n llefaru wrthym yn ein hamgylchiadau gwahanol. Ar dro mae'r neges yn galed ac mae'n rhaid dweud rhyw bethau ar sail yr Ysgrythurau i ddod â ni at ein coed ond yn fynych iawn caf fy arwain i gyhoeddi cysuron a gobeithion yr Efengyl.

Fy nyhead dwfn yw bod dynion a merched o dan weinidogaeth y Gair yn Seion yn dod i weld gogoniant person yr Arglwydd Iesu Grist yn fwy clir o Sul i Sul ac yn medru dweud gydag argyhoeddiad am yr Arglwydd Iesu Grist megis ag y dywedodd pobl Sychar, "Yr ydym wedi ei glywed drosom ein hunain, ac fe wyddom mai hwn yn wir yw Gwaredwr y byd" (Ioan 4:42).

Fy ngweddi yw y gwêl Duw yn dda yn ei ras a'i gariad eich tywys a'ch cyfarwyddo gan yr Ysbryd Glân i alw gweinidog a fydd wrth bregethu yn dyrchafu'r Arglwydd Iesu Grist ac yn dwyn cynulleidfa Seion i ryfeddu at ei berson, ei gariad a'i ras.

Yr Arglwydd Iesu Grist – Rhosyn Saron Tybed sut un oedd yr Arglwydd Iesu i edrych arno? Nid oes gennym ddisgrifiad o bryd a gwedd yr Arglwydd Iesu yn y Testament Newydd. Nid ydym yn gwybod ai gŵr tal ynteu byr ydoedd, ai gŵr golygus a deniadol ynteu cyffredin ei wedd ydoedd. Mae'r Testament Newydd yn fud ei dystiolaeth ynghlŷn â hyn.

Yn wyneb ein tuedd i roi gormod o bwys ar sut yr ydym yn edrych ac ar beth a wisgwn, onid yw'n dda nad yw'r Testament Newydd yn manylu ar bryd a gwedd ein Harglwydd? Nid pryderfwrthwch corfforol yw pryderfwrthwch Cristnogol, ond pryderfwrthwch cymeriad sy'n adlewyrchu bywyd glân yr Arglwydd Iesu Grist yn y byd. Mewn geiriau eraill, nid corff y Cristion a'i gwna yn bryderferth, ond ysbryd cariad Duw o'i fewn. Onid gogoniant cariad Duw a welodd pobl ar hyd yr oesau ym mherson yr Arglwydd Iesu Grist? Onid gorau Duw ydoedd? Yn wir, onid Duw ei hun ydoedd? Dywed Ioan,

"Does neb erioed wedi gweld Duw, ond mae'r Mab unigryw hwn (sy'n Dduw ei hun, gyda'r berthynas agosaf posib â'r Tad), wedi dweud yn glir amdano" (Ioan 1:18).

Dywedodd Iesu, "Mae pwy bynnag sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad" (Ioan 14:9).

Cawn ddarluniau byw o'r Arglwydd Iesu yn mynd oddi amgylch yn gwneud daioni ond mae Duw am sicrhau ein bod ni'n dod at droed y groes oherwydd mae Duw ei hun yn dewis ein cyfarfod yn y fan honno yn ei Fab. Mae breichiau ein Gwaredwr ar led yn disgwyl amdanon ni. Tywyswyd Austin Farrer at droed y groes. Gwelodd yn ei ddychymyg y goron ddrain a'r gwaed yn diferu dros dalcen a gruddiau yr Arglwydd Iesu. Gwelodd lygaid Iesu Grist. Mae ei eiriau wedi fy nghyffwrdd i'n fawr iawn:

"God forgives me with the compassion of his eyes," meddai Austin Farrer, "but my back is turned to him. I have been told that he forgives me, but I will not turn and have forgiveness... God forgives me, for he takes my head between his hands and turns my face to his to make me smile at him. And though I struggle and hurt those hands – for they

are human, though divine, human and scarred with nails – though I hurt them, they do not let go until he has smiled me into smiling; and that is the forgiveness of God.”

Wrth droed y Groes mae Duw yn ei ddatguddio’i hun i ni fel y mae’n dymuno i ni ei adnabod – yn Dduw cariad a chymod, maddeuant a thrugaredd.

Yn ei ganiadau serch mae cariad Solomon yn ei chymharu ei hun i “rhosyn Saron” (Caniad Solomon 2:1). Mae William Williams ac Ann Griffiths wedi gafaél mewn rhosyn fel delwedd i ganmol harddwch person yr Arglwydd Iesu Grist.

Mae’r Arglwydd Iesu Grist, Rhosyn Saron, mor hardd ei wedd heddiw ag erioed. Pa sawl un ohonom sy’n ymhyfrydu yn arogl hyfryd ei gariad? Mae yna berygl i ni ei gadw hyd braich a’i wahardd rhag ymyrryd yn ein bywyd. Canlyniad hynny yw ein bod ni’n methu profi rhin ei berson.

Os ydym am fwynhau blodau i’r eithaf, mae’n rhaid i ni, nid yn unig edrych arnynt, ond hefyd nesáu atynt a’u harogli. Onid felly yr Arglwydd Iesu, Rhosyn Saron? Mae’n rhaid nesáu ato, fel y gall wasgar persawr ei gariad arnom a thrwom. O wneud hynny deun yn berarogl Crist, ac yn sianelau deniadol ei gariad yn y byd.

Un a fu yn garcharor y Natsiaid oedd Dietrich Bonhoeffer ond daeth yn amlwg ei fod uwchlaw pob dim yn garcharor Crist. Dywedwyd amdano gan un o’i gyd-ddioddefwyr, ei fod “...bob amser yn dda ei dmyr, bob amser yn garedig a chwrtais i bawb, fel y bu iddo ymhen amser byr, er syndod mawr i mi, ennill drosodd y gwarchodwyr!” Hyd yn oed yn

y gell unig honno yng ngharchar Flossenbürg, trwy ei esiampl loyw, ei fonheddigrwydd Cristnogol a’i ymddygiad grasol, taenodd bersawr Efengyl Crist ar led. Mae galw arnom ninnau heddiw, nid yn unig i lefaru’r Efengyl a’i chyhoeddi’n llafar, ond hefyd i’w byw gan amlygu cariad yr Efengyl yn ein holl ymwneud â chyd-ddyn - taenu persawr cariad Crist, Rhosyn Saron ar led.

Rwy’ wedi ceisio tynnu cynulleidfia Seion at droed y groes ym mhob oedfa ac fe offrennaf yn y fan honno nawr. Ar Groes Calfaria cafodd Iesu, Rhosyn Saron, ei ddirmygu a’i watwar a’i ladd gan bobl oedd yn euog o bechodau sy’n eiddo i’r ddynoliaeth gyfan. Dywedir bod perarogl rhosyn yn cydio hyd yn oed yn y fwyell sy’n torri ei ganghennau. Onid hynny a wnaeth Iesu Grist wrth gael ei ddryllo ar Groes – gadael perarogl cariad ar y pren garw cafodd ei groeshoelio arno? Y groes sy’n datgelu rhyfeddod ei gariad.

*Ac yno talwyd perffaieth lawn,
Nes clirio llyfrau’r nef yn llawn,
Heb ofyn dim i mi.* (William Williams)

Nid yw’n syndod bod William Williams yn gorfoleddu drachefn yn ei Waredwr,

*Mae cyflawnder maith dy ras
yn fwy helaeth, yn fwy dwfwn
ganwaith nag yw ‘mhechod cas...*

Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist yw eglwys Seion ac yr ydym yn freintiedig iawn o gael perthyn i Deulu Iesu Grist.

“Gras fyddo gyda phawb sy’n caru ein Harglwydd Iesu Grist â chariad anfarwol!” (Effesiaid 6:24).

Andrew Lenny

Oedfa Deuluol Bore’r Pasg



Roedd yr Oedfa Deuluol i ddathlu’r atgyfodiad ar fore Sul y Pasg yn arbennig o gofiadwy gyda’r plant a’r ieuencid yn canu, yn actio ac yn llefaru ar eu gorau. Cawsom gyfraniadau gan rai o rieni’r Ysgol Sul yn ogystal. Cafodd y gweinidog gymorth trwy ymateb brwdfrydig y plant i rannu neges yn seiliedig ar ddau air: *Maddeuant a Gobaith*. Gweinyddwyd Ordinhad Swper yr Arglwydd ac yn ôl ei arfer cafodd y plant wyau Pasg gan y Gweinidog.

Aelod a hunodd

Yr Athro Emeritws Ieuan Gwynedd Jones (29:6:18), Mr Ray Rees (5:7:18)

“Myfi yw’r atgyfodiad a’r bywyd. Pwy bynnag sy’n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy’n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth. A wyt ti’n credu hyn?” (Ioan 11:25,26)

Cydymdeimlwn ag aelodau a gollodd anwyliad

Mrs Helena Rees (chwaer yng nghyfraith), Y Parchg. Andrew Lenny (mam), Mrs Rosemary Lenny (mam yng nghyfraith), Dr Alwyn Jones (mam), Dr Gwenfair Jones (mam yng nghyfraith), Anna a Tomos Jones (nain)

Yn yr ysbyty neu newydd dderbyn triniaeth

Mrs Eileen Price Jones, Mrs Gwyneth Jones, Mrs Margaret Dyfri Jones, Mr Emyr James, Miss Mair Thomas, Mrs Eirwen Lewis, Mrs Gwen Gruffudd, Mr Bill Farrow

Longyfarchiadau

i **Dyfan a Catrin Powell** ar enedigaeth eu merch fach, **Eiry Mai**.

i **Efa Lois Thomas** ar ennill Ysgoloriaeth Celf, Dylunio a Thechnoleg Eisteddfod yr Urdd.

i’r **Athro Eleri Pryse** ar gael ei hethol yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

i **Mr Dai Llewelyn** ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed.

i’r **Parchg. Irfon Evans** ar ei ethol yn Llywydd Anrhydeddus Pwyllgor Gwaith Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr yng Ngheredigion 2018.

i **Dr Hywel Griffiths** ar ennill categori Barddoniaeth Llyfr Y Flwyddyn 2018 am ei gyfrol, Llif Coch Awst.

i **Sophie Rudge** ar gael ei hanrhydeddu â gwobr “Full Palatinate for Special Achievement in Music” gan Brifysgol Durham yn gydnabyddiaeth am ei chyfraniad eithriadol i gerddoriaeth yn y brifysgol.

i **Ifan Jonathan Thomas** ar ennill gradd mewn Rheolaeth Busnes o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

i **Meleri Pryse** ar ennill gradd Meistr mewn Ffiseg o Brifysgol Abertawe

i **Angharad Llwyd** ar ennill gradd Meistr mewn Hanes o Brifysgol Aberystwyth.

i **Gruffudd Jenkins** ar ennill gradd Meistr mewn Mathemateg o Brifysgol Aberystwyth

Diolch a Gwerthfawrogi Gwasanaeth

Dymunwn ddiolch yn ddiwyll i Mr Eric James am ei wasanaeth fel Ysgrifennydd Ariannol yr eglwys am dros wyth mlynedd (2010 – 2018). Cyflawnodd y gwaith gyda’r trylwyredd mwyaf a mawr yw ein dyled iddo. Gwerthfawrogn barodrwydd Mr Peter Williams i ymgymryd â gwaith yr Ysgrifennydd Ariannol – mawr yw ein diolch iddo.

Dymunwn ddiolch yn fawr iawn i Mr Alun Williams am ei waith fel Trefnydd Porthorion (2008 – 2018) a gwerthfawrogn barodrwydd Mr Leon Gibson i ymgymryd â’r cyfrifoldeb hwn. Diolchwn i Mr Leon Gibson hefyd am gymryd y cyfrifoldeb am Ddyddiadur y Festri a Llogi’r Adeiladau.

Dymunwn ddiolch i Miss Rhiannon Davies am ei pharodrwydd i drefnu Rota’r Organ.

Diolchiadau

Dymuna Emyr a Dulcie James a holl deulu Nel ddiolch o galon i bawb a drefnodd ac a gyfrannodd tuag at Apêl Ambiwlans Awyr Cymru yn ddiweddar. Trwy haelioni aelodau Seion ac eraill oedd yn bresennol yn Oedfa Gŵyl Ddewi’r Ysgol Sul llwyddwyd i godi’r swm anrhydeddus o £367 tuag at yr achos teilwng yma. Diolch o waelod calon i chi gyd.

Dymuna Lynnau Lewis a’r teulu ddiolch yn ddiffuant i bawb a gyfrannodd i Ysbyty Rookwood ac Ymchwil Canser er cof am Elfed. Derbyniwyd y swm o £600.

Trefn Gwasanaethau’r Cymun

29 Gorffennaf (bore), 2 Medi (bore)

Oedfaon Unedig mis Awst

5 Morfa Y Parchg. Casi Jones
12 Seion Tomos Roberts Young
19 Bethel Y Parchg. Richard Lewis
26 Morfa Y Parchg. Eifion Roberts

Y Cymundeb

Os ydych yn fudlon helpu i baratoi’r Cymundeb yn ystod y flwyddyn a fyddych cystal â rhoi gwybod i Gwenda James os gwelwch yn dda - gwenda_llan@yahoo.co.uk.

Cymorth Cristnogol

Cynhaliwyd Siop Cymorth Cristnogol yn Festri Seion a gwnaethpwyd elw o £760. Diolch i bawb a fu'n gweithio yno ac am y cyfraniadau at y Stondin Gacennau. Diolch hefyd i Mair Rowlands, Beryl Jenkins a Delyth Fletcher am gasglu o ddrws i ddrws. Bu'n ymdrech lew ar eu rhan i gasglu £462. Gwerthfawrogwn wasanaeth Anita Owen yn cydlynu'r cyfan ar ein rhan ac am ei gwaith fel Trysorydd Pwyllgor Cymorth Cristnogol Ardal Aberystwyth.

Y Gymdeithas

Fis Ebrill daeth ein tymor o gyfarfodydd hwyrol i ben am eleni gyda sgwrs hynod ddifyr gan Bryn Jones. Cydlynodd Fforwm Cymunedol Penparcau, Yr Hwb ydi Bryn, ac eglurodd sut y bu i'r egin syniad oedd gan griw o unigolion droi i fod yn fwrilwm o weithgareddau sy'n digwydd o amgylch Yr Hwb. Cafwyd sgwrs frwdfrydig ar sut aethpwyd ati i ymgynghori â'r trigolion ynglŷn â beth hoffon nhw ei gael ar gyfer y pentref ac ar y codi arian fu rhaid gwneud er mwyn adnewyddu'r hen Glwb Bocsio i fod yn gylchfan er budd y Gymuned. Oherwydd hyn mae'r trigolion, ifanc a hŷn, yn teimlo perchnogaeth o'r fenter ac mae'r rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau cymunedol gan gynnwys y Carnifal ddigwyddodd ddiwedd fis Mehefin wedi bod yn dyst i'r lwyddiant yma. Llongyfarchiadau mawr a phob hwy! i'r Hwb.

Diolch yn fawr iawn i holl siaradwyr a chyfranwyr i'n rhaglen eleni.

Os ydych yn fodlon helpu yn achlysurol i baratoi te ar gyfer ein cyfarfodydd nosweithiol neu ar gyfer ein bore coffi misol ar gyfer y Gymdeithas, a fydddech crystal â rhoi gwybod i Gwenda James (Ysgrifennydd) os gwelwch yn dda - gwenda_llan@yahoo.co.uk.

Apêl Madagascar

Tybed oeddech chi'n gwybod mai enw ynys Madagascar mewn Malagaseg yw Madagasikara? Mae'r llythren 'i' yn yr enw yn cael ei hynganu'n ysgafn iawn, ac i bob pwrpas yn diflannu o'r gair yn yr un ffordd ag y mae'r 'w' yn diflannu allan o'r gair 'marwnad' yn y Gymraeg.

Ym 1818, hwyliodd cenhadon o Gymru i F Madagascar a sefydlu ysgolion a chenhadaeth Gristnogol. Mae pobl Madagascar a Chymru yn cofio hynny, ac yn dathlu gyda'i gilydd. Mae'n dda bod cynifer o'n plith wedi manteisio ar y cyfle i

ymuno yn y dathlu yn Neuaddlwyd ac Aberaeron gan gydaddoli â'n brodyr a'n chwiorydd o Madagascar.

Pan gyrhaeddodd David Jones a Thomas Bevan, y cenhadon ifanc o Academi Neuaddlwyd, Ynys Madagascar go brin fod neb yno wedi clywed am yr Arglwydd Iesu Grist. Dau gan mlynedd union yn ddiweddarach mae eu cenhadaeth hwy wedi tyfu yn eglwys gyda dros bum miliwn o aelodau. Pobl dlawd yw'r rhelyw yn yr eglwysi yma ac eto maent yn cyflawni gwaith aruthrol gan estyn at bobl yn eu hanghenion gwahanol oddi mewn ac oddi allan i'r eglwysi lleol. Yn yr oedfa ar fore Sul, 10 Mehefin, yn Neuaddlwyd - yr oedfa oedd yn cloi Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr a Dathliad Glaniaid y Cenhadon ym Madagascar dau gan mlynedd yn ôl - bu rhaid i 29 o bobl Madagascar ymadael â'r oedfa cyn y diwedd am fod rhaid iddynt gyrraedd maes awyr Heathrow ar amser penodedig. Profiad na allaf ei osod mewn geiriau oedd gweld y bobl yma yn ymadael â ni i ddychwelyd i'w mamwlad i wynebu tlodi - i fyw ar ddwy ddoler y dydd. Ein brodyr a'n chwiorydd yng Nghrist oeddent - cyd-gredinwyr â ni ydynt.

Lansiwyd Apêl Madagascar yng Nghyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a chyn hir byddwn yn derbyn pecyn yr Apêl o Dŷ John Penri. Bydd y pecyn yn cynnwys gwybodaeth am bedwar prosiect penodol y bwriedir eu hariannu ynghyd â gwasanaeth y gellir ei ddefnyddio adeg y cynhaeaf. Mae un o'r prosiectau yn ymwneud â chartref i blant amddifad – cartref Topaza. Mae Topaza yn rhoi aelwyd ddiogel i blant mewn gwlad beryglus ac yn eu galluogi i gyrraedd eu gwir botensial. Rwyf eisoes wedi dangos llun merch fach i'r plant yn yr oedfa. Cafodd ei hachub oddi ar y strydoedd am fod ei rhieni yn rhy dlawd i ofalu amdani a bellach mae'n ddiogel yng Nghartref Topaza.

Dywed Iesu yn Nameg y Farn Olaf, y cyfeirir ati hefyd fel Dameg y Defaid a'r Geifr,

“Credwch chi fi, pan wnaethoch chi helpu'r person lleiaf pwysig sy'n perthyn i mi, gwnaethoch chi fy helpu i... Credwch chi fi, beth bynnag wrthodoch chi ei wneud i helpu'r un lleiaf pwysig o'r rhain, gwrthodoch chi ei wneud i mi” (Mathew 25:40,45).

Mae'n sialens ac yn alwad gan Dduw arnom ni gyd i wneud rhywbeth i godi arian i'r Apêl. Mae gan Gristnogion Madagascar lawer iawn i'n dysgu ni. Yn sicr, medrwn ddysgu o'u dulliau cenhadol hwy.